# Sut i wneud pwll

A wyddech chi bod pyllau a llynnoedd yn gartref i amrywiaeth anferth o fywyd gwyllt? Mae llu o byllau a llynnoedd yn ardal Pen-y-bont, yn cynnwys Pwll Cynffig, llyn naturiol mwyaf Morgannwg! Beth am alw draw i weld y bywyd gwyllt anhygoel maen nhw'n ei ddenu? Mae'n siŵr y cewch chi syniadau ar gyfer creu eich pwll eich hun yn yr ardd, a synnu at y bywyd gwyllt a ddaw i ymweld!

## 5 uchaf y pyllau

1. Blaengarw – Parc Calon Lân
2. Bryngarw – Parc Gwledig Bryngarw
3. Cynffig – Pwll Cynffig
4. Porthcawl – Llynnoedd Diffeithwch
5. Y Pîl – Gwarchodfa Natur Coedwig Pwll y Broga



## Sut i wneud pwll

### Bydd arnoch eisiau

+ Leinin pwll – mae'r math gorau wedi'i wneud o rwber butyl
+ Amrywiaeth o blanhigion pwll
+ Cerrig mawr
+ Tywod adeiladwyr
+ Rhaw
+ Dŵr glaw

### Beth i'w wneud

1. Dewis fan yn eich gardd ar gyfer eich pwll – man sy'n gael digon o oleuni, ond heb fod yn heulog trwy'r dydd.
2. Marciwch siâp eich pwll, a dechrau palu. Mae pyllau mawr yn denu mwy o fywyd gwyllt na rhai bach ond bydd hyd yn oed y lleiaf yn creu cynefin bywyd gwyllt. Does dim rhaid i'r pwll fod yr un dyfnder ym mhob rhan. Mae dyfnder o rywle rhwng 20 a 60 cm yn ddelfrydol.

*Parhad drosodd*





## **Beth i'w wneud** parhad

3. Symudwch unrhyw gerrig miniog o waelod y pwll ac yna leiniwch waelod y pwll â haen 5 cm o drwch o dywod.
4. Cloddiwch ffos o gwmpas ymyl y pwll. Gosodwch y leinin rwber yn y pwll a gwthio'r ymylon i mewn i'r ffos.
5. Rhowch gerrig mawr i bwyso ar ymylon y leinin.
6. Leiniwch waelod y pwll â rhagor o dywod a llenwch y pwll i'r ymylon â dŵr glaw.
7. Pan fydd y pwll yn llawn, rhofiwch y pridd yn ôl i mewn i'r ffos o gwmpas y pwll. Gwnewch yn siŵr bod cymaint ag sy'n bosib o'r leinin wedi ei orchuddio gan bridd neu gerrig mawr i'w ddal yn ddiogel yn ei le.
8. Ar ôl llenwi'r pwll, gadewch lonydd iddo am wythnos neu ddwy. Pan fydd wedi setlo, plannwch amrywiaeth o blanhigion dŵr brodorol ynddo.
9. Rhowch gerrig, boncyffion a phlanhigion o gwmpas y pwll i greu cynefinau bywyd gwyllt.
10. Gwyliwch i weld pa fywyd gwyllt sy'n ymweld â'ch pwll.



## Plannu eich pwll – y 4 'parth'

**Mae 4 'parth' mewn pwll lle gallwch dyfu planhigion. Mae'n syniad da ceisio cael planhigion ym mhob parth. Mae rhai da yn cynnwys:**

1. Parth yn gyfangwbl o dan y dŵr – milwydd dŵr, dyfrllys culddail, llinesg y dŵr
2. O dan y dŵr, ond â dail yn arnofio – chwysigenwraidd, egyllt y dŵr, alaw lleiaf
3. Parth sy'n dod i'r amlwg (dŵr bas) – saethlys, hesg praff-dywysennog, glas y gors
4. Parth ymylol (ymyl y pwll/tir corsiog) – tormaen, gwaedlys, brwynen flodeuog

Am fwy o wybodaeth am rywogaethau blodau, ewch i'r gwefannau hyn:

+ Yr Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptir (WWT)
+ Gardners' World



# Sut i wneud pwll mewn cynhwysydd

## Bydd arnoch angen

+ Cynhwysydd sy'n dal dŵr
+ Graean
+ Creigiau, hen frics neu foncyffiau
+ Planhigion pwll bychain
+ Rhaw (dewisol)



## Beth i'w wneud

1. Dewch o hyd i gynhwysydd mawr sy'n dal dŵr, e.e. bwced, powlen olchi llestri neu hen sinc. Dylai fod yn ddigon cryf ac yn rhyw 20-30cm o ddyfnder. Os ydych yn defnyddio sinc, syniad da fyddai selio plwg i mewn i'r twll plwg â silicon, i sicrhau na fydd yn gollwng.
2. Dewiswch ble i roi eich pwll. Dewiswch rywle sy'n cael digon o olau, ond heb fod yn heulog drwy'r dydd. Gallech gloddio twll ar ei gyfer, a'i gladdu fel bod ei ymylon yr un lefel â'r ddaear.
3. Gwnewch yn siwr y gall bywyd gwyllt fynd i mewn a dod allan o'ch pwll yn rhwydd. Rhowch frics, creigiau neu goed ar ymyl y pwll i greu grisiau i mewn ac allan.
4. Rhowch haen o raean ar waelod eich cynhwysydd.
5. Llenwch eich pwll â dŵr glaw.
6. Rhowch rai planhigion da yn eich pwll. Bydd dau neu dri yn ddigon.
7. Gwyliwch – yn y misoedd cyntaf, gallech gael llawer o algae neu linwisg yr afon. Dylech ddirwyn y tyfiant o gwmpas darn o bren i gael gwared ohonon. Pan ddaw creaduriaid i ymgartrefu yn eich pwll, fel fyddan nhw'n helpu i gadw'r dŵr yn lân.
8. Gwyliwch i weld pa fywyd gwyllt sy'n ymweld â'ch pwll.



## Cofiwch!

+ Cofiwch y gall pyllau fod yn beryglus i blant bach, felly dewiswch rywle diogel
+ Cofiwch, os bydd y tywydd yn boeth efallai y bydd rhaid i chi ail-lenwi eich pwll â dŵr glaw
+ Cofiwch beidio â defnyddio dŵr tap i lenwi'r pwll gan fod gormod o gemegau ynddo
+ Cofiwch bod planhigion da yn cynnwys glas y gors, tormaen a chyrnddail